Office for Product
Safety & Standards



# Cadwch yn saff yr haf hwn

Wrthi'n paratoi at wyliau'r haf? Bydd llawer ohonom yn prynu eitemau newydd i fynd â ni drwy wyliau'r haf, fel gwefrydd ffôn, sbectol haul a hyd yn oed twymwr tanddwr i gynhesu'n pyllau padlo.

Ond sut mae gwybod eich bod yn cael cynnyrch diogel? Mae prynu bargen yn demtasiwn bob tro, ond os yw pethau'n ymddangos yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg eu bod nhw.

**#HafSaff2021**

2021


# Cadwch yn saff yr haf hwn

Mae llawer o fargeinion honedig yn niweidiol ac fe allen nhw achosi anaf, weithiau'n ddifrifol. Efallai na fydd nwyddau trydan rhad, fel twymwr i'r pwll a gwefrydd i'r ffôn, wedi'u cynhyrchu i safon uchel, a gall y rhain ordwymo, mynd ar dân neu drydanu rhywun.

Gall sbectol haul wael gynnig amddiffyniad isel neu ddim amddiffyniad o gwbl rhag pelydrau'r haul.



# Y cynghorion gorau ynghylch siopa yr haf hwn





**Cymharwch y pris -** Os yw'n ffracsiwn o'r pris, yna gallai hyn fod yn rhybudd nad yw'r cynnyrch yn ddiogel.



**Gwiriwch y cyfeiriad ar y cynnyrch -** Os nad oes cyfeiriad neu os oes rhif Blwch Post yn unig, gallai hynny olygu ei fod heb gael ei wneud yn dda.



**Archwiliwch y cynnyrch -** Ydy'r label a'r logo yn gywir? Mae gan gynhyrchion brand dilys logos, ffontiau a lliwiau safonol. Gall gwallau sillafu a gwallau gramadeg fod yn rhybudd hefyd nad yw'r cynnyrch wedi'i wneud yn dda.



Gall nwyddau trydan sydd heb gael eu gwneud yn dda fod â rhannau yn eisiau, neu fod heb ardystiad diogelwch ar label y cynnyrch. Chwiliwch am gardiau cofrestru cynnyrch a'r llawlyfr.



Edrychwch i weld a ydy rhifau modelau wedi'u rhestru ar wefan y gwneuthurwr. Gall rhai cynhyrchion trydan gael eu cofrestru ar-lein gyda'r gwneuthurwr hefyd.

**Os ydych chi'n amau, gwiriwch. Dydy'r ffaith bod rhywbeth ar gael i'w brynu ddim yn golygu ei fod yn ddiogel. Darllenwch ein canllaw yn llawn:**

**https://www.gov.uk/guidance/consumer-product-safety-advice-for-staying-safe**

2021